

## Hysbysiad Prosesu Teg - Canolfan Gyswilt a Chanolfannau Gwasanaethau Cwsmer

### 1. Pam rydym ni'n casglu a chadw eich gwybodaeth bersonol?

Rydym yn casglu a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol fel y gallwn eich cynorthwyo gyda'ch ymholiad neu i drosglwyddo'ch ymholiad i'r tîm neu'r gwasanaeth perthnasol i weithredu.

Rydym yn Prosesu eich data gan fod angen gwneud hynny er mwyn cyflawni'r dasg hon.

### 2. Sut y bydd Gwybodaeth amdanoch chi'n cael ei defnyddio?

Bydd yr wybodaeth a rowch yn cael ei phrosesu yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a bydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion prosesu'ch ymholiad.

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol gan y gyfraith a chawn hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ddarganfod/atal twyll neu archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y modd mwyaf priodol a chost effeithiol. Er mwyn sicrhau hyn, mae'n bosibl y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag adrannau mewnol eraill Cyngor Sir Penfro neu gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd parti at ddibenion marchnata.

Bydd eich data yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser a byddwn ond yn casglu'r wybodaeth bersonol sy'n ofynnol i brosesu'ch ymholiad.

### 3. Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a roir i ni am bum mlynedd a gwaredir yn ddiogel â'ch gwybodaeth pan na fydd ei hangen rhagor.

### 4. Cael at fy ngwybodaeth bersonol

Gallwch gael gwybod a ydym yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch drwy wneud cais i weld yr wybodaeth o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016. I wneud cais am unrhyw wybodaeth bersonol y gallwn ei ddal, mae angen i chi gysylltu â'r tîm isod:

Tîm Mynediad at Gofnodion

Cyngor Sir Penfro

Neuadd y Sir

Hwlfordd

SA61 1TP

E-bost: [accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk](mailto:accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk)

Ffôn: 01437 775798

## 5. Eich Hawliau

O dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae gennych hawliau fel unigolyn y gallwch eu harfer mewn perthynas â'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi:

- Yr hawl i **weld** y wybodaeth – mae gennych hawl i ofyn am gael gweld gwybodaeth sydd gennym amdanoch ac i gael copi ohoni
- Yr hawl i **gywiro** – mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth.
- Mae'n bosibl y bydd yr hawl i **gyfyngu** ar brosesu yn gymwys – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol, ond gall hyn achosi oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **wrthwynebu** - nid yw hon yn hawl absoliwt a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i **beidio â bod yn ddarostyngedig i benderfyniadau a phroffilio awtomataidd.**

## 6. Cwynion neu Ymholiadau.

Mae Cyngor Sir Penfro'n ceisio cyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, byddwn yn ystyried o ddifrif unrhyw gwynion a gawn am hyn. Anogwn bobl i roi gwybod inni os credant fod y ffordd y byddwn yn casglu neu'n defnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn manylu'n gynhwysfawr ar bob agwedd ar ein prosesau casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Mae angen yr wybodaeth a gasglwn er mwyn i ni ddelio â'ch ymholiad neu i ganiatáu i ni basio'ch ymholiad i'r tîm priodol. Os oes angen rhagor o wybodaeth gan y tîm hwnnw, byddant yn cysylltu â chi ar wahân.

Fodd bynnag, rydym yn fodlon rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol neu eglurhad sydd eu hangen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn i'r cyfeiriad isod:

Jo Hendy, Swyddog Diogelu Data

Cyngor Sir Penfro

Neuadd y Sir

Hwlfordd

SA61 1TP

E-bost: [dataprotection@pembrokeshire.gov.uk](mailto:dataprotection@pembrokeshire.gov.uk)

Ffôn: 01437 764551

Os ydych am wneud cwyn am y ffordd yr ydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef y corff statudol sy'n goruchwylio cyfraith diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

SK9 5AF

E-bost: [caseworker@ico.org.uk](mailto:caseworker@ico.org.uk) Rhif ffôn: 0303 1231113

## **7. Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn**

Byddwn yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.